Cyngor Tref Treffynnon

# Newyddlen Cymuned Treffynnon

Tudalen Cyngor Tref Treffynnon | @Holywell_Town | holywelltowncouncil

Rhifyn 5 | treffynnon.cymru | 01352 711757 | Hydref/Gaeaf 2019

## Sul y Cofio



Bydd Gwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys y Plwyf St. James, Treffynnon ar Ddydd Sul 10fed Tachwedd 2019 am 10.45 y bore ac, yn dilyn hynny, bydd gwasanaeth byr a gosod torchau wrth y Gatiau Coffa yn Panton Place.

Cyn y gwasanaeth, mae gorymdaith wedi ei threfnu ar hyd y Ffordd Gylch i Well Street (Eglwys y Plwyf St James), a dylai'r rheiny sy'n gorymdeithio gyfarfod yn gyntaf ym maes parcio Lidl oddi ar y Ffordd Gylch am 10.25 a.m.

Oddeutu 11.45 a.m., yn dilyn y gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf, bydd yr Uned yn gorymdeithio o Well Street i'r Gatiau Coffa yn Panton Place ac yna bydd parêd yn cynnwys gwesteion dinesig, cynghorwyr tref, sefydliadau lleol a chyn filwyr.

Bydd gwasanaeth hefyd yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Maesglas am 10.45 a.m., ac yn dilyn hynny bydd torchau'n gael eu gosod yng Ngerddi Coffa'r Rhyfel.

EGLWYS ST. JAMES CH8 7PP

## GWASANAETH CAROLAU NADOLIG ELUSENNOL Y MAER

Ymunwch â'r Maer
Paul Johnson a'r Faeres Sue Johnson mewn gwasanaeth carolau arbennig gyda chwmni côr PhilsHarmonics

**DYDD GWENER 13 RHAGFYR, 2019**
**YN CYCHWYN AM 7.00 P.M.**
**TOCYNNAU £5.00/£1.00 I BLANT DAN 13**
**Y PRIS YN CYNNWYS GWIN CYNNES A MINS PEIS**
**CYSYLLTWCH Â**
**COLLETTE AR 01352 711757 NEU**
**SUPPORT.OFFICER@HOLYWELL.WALES I GAEL**
**TOCYNNAU. MAE MODD TALU AR GERDYN**

philsHarmonics MODERN CHOIR

destination holywell
apelych am dreffynnon

DYDD IAU 19 RHAGFYR
9AM-6PM

## Marchnad Nadolig Treffynnon

Stryd Fawr Treffynnon
MYNEDIAD AM DDIM

CREFFTAU A RHODDION NADOLIG
DETHOLIAD O ATYNIADAU
LORI SANTA A RAS SANTA
CERDDORIAETH AC ADLONIANT
I GREU AWYRGYLCH Y NADOLIG 1-6PM
SIOPA HWYR MEWN BUSNESAU
DETHOL

destination holywell

Holywell Town Council/Cyngor Tref Treffynnon
HOLYWELL MARKET

## Cymru yn ei Blodau—Treffynnon yn ennill y Wobr Arian




Rydym wedi cael un neu ddau o syniadau newydd eleni i wneud Treffynnon hyd yn oed yn fwy atyniadol i ymwelwyr yn yr haf. Gosodwyd baneri lliwgar yn Tower Gardens, The Mews a Panton Place a gosodwyd dalwyr planhigion newydd hefyd yn Panton Place a The Mews. Rhoddwyd planhigion haf ffres yn y dalwyr planhigion haenog yn Tower Gardens gan y busnes lleol Hartley's ynghyd â'r basgedi crog arferol yn y dref a'r basgedi newydd ym Maesglas a Phen y Maes. Yn ogystal, i ddiolch i'r staff a'r trigolion am yr ymrwymiad y maent wedi'i ddangos i Panton Place, penderfynodd Cyngor Tref Treffynnon eu rhoi yng nghategori "Dyma'ch Cymdogaeth Chi" y gwobrau cenedlaethol. Enillodd y rhain y Wobr "Ffynnu" Lefel 4 glodfawr iawn a gyflwynwyd i rai o'r trigolion yng nghyfarfod llawn y Cyngor fis Hydref yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Maesglas.



## Dalwyr Planhigion y Dref

Mae busnesau'r dref wedi rhagori unwaith eto yn eu hymdrechion a'u hymrwymiad i blannu a gofalu am y dalwyr planhigion hyn bob dydd. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfranogi eleni am eu bod nhw oll yn edrych yn hyfryd ac roedd y penderfyniad yn eithriadol o anodd i'r Maer. The Coffee Bean — gyda'u gardd berlysiau "helpwch eich hun" gafodd y wobr $1^{af}$, daliwr planhigion ar y cyd gan Natural Elements a Tower Crafts enillodd yr $2^{il}$ wobr a chafodd The Flower Bowl $3^{ydd}$ lle.

## Y sefydliad gorau

Ar ein rowndiau, aethom i Ysbyty Gymunedol Treffynnon, Llys Gwenffrwd a Panton Place i feirniadu'r Ardd Orau mewn Sefydliad 2019. Roedd y gwaith caled gan y trigolion neu'r gwirfoddolwyr ymhob sefydliad yn codi'r galon a dylai pob cyfranogwr deimlo'n hynod o falch o'u cyflawniad. Penderfynwyd, fodd bynnag, mai Llys Gwenffrwd oedd yn fuddugol unwaith eto eleni, ac roedd hi'n bleser o'r mwyaf cael mynd i ymweld â'r trigolion— mae llawer ohonyn nhw'n gofalu am yr ardd.

## Yr ardd breifat orau

Lansiwyd hwn y llynedd ac, unwaith eto, aethom ar daith o amgylch Treffynnon a Maesglas i ganfod gardd breifat orau 2019. Cawsom fwy o ymateb na'r llynedd a hoffem ddiolch i bawb a aeth amdani ac ymgeisio. Unwaith eto, roedd y penderfyniad yn anodd iawn, ond Mrs Morgan oedd yn fuddugol diolch i'w gardd Caredig i'r Gwenyn. Os hoffech chi'r cyfle i ennill £25 y flwyddyn nesaf, disgwyliwch weld ein posteri ddiwedd y gwanwyn yn eich gwahodd i gymryd rhan.



## Yr ysgol orau

Roedd hi'n anrhydedd gennym ymweld â 4 ysgol gynradd Treffynnon a Maesglas yn ôl ym mis Gorffennaf i feirniadu'r Ardd Ysgol orau 2019. Roedd yr ymdrechion gan y 4 ysgol yn wych gydag esiamplau o ailgylchu, compostio, uwchgylchu a phlannu ynghyd â gofal amlwg am bob math o blanhigion a llysiau. Wedi llawer o bendroni, rhoddwyd y wobr gynaf i Ysgol Maes Glas ym Maesglas.

Enillydd yr Ardd Breifat Orau, Mrs Morgan






Holywell Uniform Exchange

Reduce – Re-use – Recycle

**Y prosiect gwisg ysgol**

Mae'r cyngor tref wedi cyflwyno cynllun cyfnewid gwisg ysgol yn ddiweddar lle gall pobl fynd â gwisgoedd ysgol y mae eu plant wedi tyfu allan ohonynt neu nad ydynt eu heisiau bellach a dewis un sy'n newydd iddyn nhw am rodd fechan. Bydd unrhyw arian dros ben yn mynd i'r ysgolion lleol. Rydym wedi cynnal 2 ddiwrnod marchnad llwyddiannus iawn yn ystod gwyliau'r haf, ac mae gennym gynlluniau i wneud hwn yn digwyddiad rheolaidd ar adegau gwahanol drwy gydol y flwyddyn.

**Wyddoch chi?**

Mae Cyngor Tref Treffynnon yn defnyddio darllenwyr cardiau Square erbyn hyn i gymryd taliadau am ddigwyddiadau, rhoddion a ffioedd archebu. I fusnesau/masnachwyr sy'n lleol i Dreffynnon, beth am gysylltu â ni i gael darllenydd Square am ddim!

**Marchnad Treffynnon**

Cyngor Sir y Fflint sy'n rheoli Marchnad Treffynnon o hyd ac, yn ddiweddar, mae wedi ei hehangu a'i gwella gyda chymorth perchnogion busnes a thrigolion lleol sy'n gweithio'n galed i'w hyrwyddo. Er ei bod wedi gorfod symud a lleihau dros dro wrth i'r gwaith ffordd barhau, bydd yn symud yn ôl i'w lle arferol cyn hir. Gallwch ddilyn y newyddion ar eu tudalen Facebook HOLYWELL MARKET a gall y masnachwyr archebu stondin drwy gysylltu â Peter Hayes yn y Cyngor Sir ar

Peter.hayes@flintshire.gov.uk

Ffôn: 07919 166 279






## Gwefan newydd

Mae ein gwefan newydd yn fyw ac yn hollol weithredol erbyn hyn. Mae'n rhoi manylion llawer o bethau i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal gyfagos yn ogystal â newyddion, digwyddiadau ac, wrth gwrs, agendâu a chofnodion cyfarfodydd y cyngor a'u polisïau. Os ydych yn rhan o glwb neu sefydliad neu hyd yn oed fusnes, helpwch ni i helpu'r gymuned a llenwch ein ffurflen fanylion ar gyfer y cyfeirlyfr rhad ac am ddim i roi gwybod i bawb beth sydd ar gael yn yr ardal! https://holywell.wales/community/clubs-societies-groups/

## Codi mater yn ein cyfarfodydd Cyngor

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo sesiynau siarad i'r cyhoedd yn ei gyfarfodydd cyngor misol. Bydd caniatâd i siaradwr annerch y cyngor ar fater o bryder lleol.

Os hoffech wneud cais i siarad mewn cyfarfod o'r cyngor yn y dyfodol, cysylltwch â Chlerc y Dref os gwelwch yn dda—Rhif ffôn (01352) 711757 neu anfonwch e-bost i town.clerk@holywell.wales
I gael rhagor o fanylion ewch i:
https://holywell.wales/public-speaking/



## Gwasanaeth y Dref 2019

Cynhaliodd Maer y dref, y Cynghorydd Paul Johnson, Wasanaeth Sul y Dref yn Nhreffynnon ar 15 Medi. Daeth torf o bobl yn cynnwys cynghorwyr o gynghorau tref cyfagos, cynrychiolwyr o sefydliadau lleol fel y Lleng Brydeinig Frenhinol, y Sgowtiaid, Clwb Joan & Derby, Cymdeithas Treffynnon a'r Cylch a Chymdeithas Thomas Pennant, ac aelodau teuluoedd, oll i ymuno â'r Cynghorydd Paul Johnson. Yn dilyn y croeso gan Grïwr Tref Treffnnon, Chris Baglin, arweiniwyd y dorf gan Fand Cambria o gatiau coffa Panton Place i lawr i Eglwys St. James i gael y gwasanaeth lle cafodd y bobl fwynhau perfformiadau gan Gantorion Glan Aber. Yna gwahoddwyd y gwesteion i ymweld â Ffynnon Gwenffrewi a mwynhau lluniaeth ysgafn. (Y llun gan Chris Noble photography)

Busnesau, sefydliadau a chymdeithasau—sut hoffech chi fod mewn rhifyn yn y dyfodol? Rydym yn codi ffi fechan am hysbysebu busnes. Cysylltwch â Collette i gael rhagor o fanylion ar 01352 711757.

## Gorsaf drenau

Byddai gorsaf drenau gyda chyfleusterau parcio a theithio yn rhan integral o gynllun cludiant integredig sy'n gwasanaethu Treffynnon a Gogledd Sir y Fflint (byddai hon ar safle hen orsaf Cyffordd Treffynnon ym Maesglas), a byddai'n ffordd gynaliadwy a thymor hir o sicrhau llesiant economaidd Treffynnon a Gogledd Sir y Fflint yn y dyfodol, gan gysylltu â'r Cynllun Teithio Llesol lleol a'n cyfraniad tuag at ostwng yr ôl-troed carbon. Mae arolygon ar gael ar-lein ac fel copïau papur o Tower Crafts, Treffynnon.

https://holywell.wales/railway-halt-survey/



## Cynllun ail-lenwi dŵr Refill

Mae Refill yn ymgyrch glodfawr a grëwyd i atal llygredd plastig wrth y ffynhonnell ei hun drwy ei gwneud hi'n haws i ailddefnyddio ac ail-lenwi eich potel ddŵr wrth i chi fynd na phrynu potel blastig untro.

Mae'r ymgyrch yn gweithio drwy gysylltu pobl sy'n chwilio am ddŵr gyda miloedd o fusnesau, canolbwyntiau teithio a mannau cyhoeddus yn lleol lle gallent ail lenwi am ddim drwy ap wedi ei seilio ar leoliad. Gall unrhyw un lawrlwytho'r ap am ddim i ganfod Gorsafoedd Ail-lenwi sy'n lleol iddyn nhw. Mae caffis, bariau, bwytai, banciau, orielau, amgueddfeydd a busnesau eraill sy'n cymryd rhan yn cofrestru i'r ap ac yn rhoi sticer yn eu ffenestri—i roi gwybod i bobl sy'n pasio bod croeso iddyn nhw ddod i mewn i lenwi eu poteli.

Erbyn hyn mae mwy na 15,000 o orsafoedd Ail-lenwi ar yr ap ym Mhrydain — gan gynnwys gorsafoedd trenau, meysydd awyr a siopau cadwyn y stryd fawr fel Costa, Starbucks a Wetherspoons. Os byddai pob gorsaf yn cael ei defnyddio unwaith y diwrnod yn unig, byddai'n arbed 5 miliwn o boteli plastig rhag cael eu prynu bob blwyddyn. Rydym wedi sicrhau gwasanaeth The Ship Inn, Sarah's Coffee, Amgueddfa'r Gymuned a Wetherspoons yn barod a gobeithiwn gofrestru rhagor o fusnesau dros amser.

## Te parti'r Maer



Ar 24 Gorffennaf, cynhaliodd y Cynghorydd Paul Johnson y 'Te Parti'r Maer' cyntaf i ddweud 'Diolch' i rai o'r bobl sy'n cyfrannu mewn ffordd mor bositif ddydd ar ôl dydd i fywyd Treffynnon a'i thrigolion. Gofynnwyd i'r cynghorwyr enwebu pobl i'w gwahodd. Roedd y bwyd yn hyfryd ac yna cafwyd taith fer o amgylch Swyddfeydd y Cyngor a Siambr y Cyngor i weld yr holl ffotograffau hanesyddol, tystysgrifau, tlysau a memorabilia. Roedd hwn yn achlysur gwych i Dreffynnon a phrynwyd popeth yn lleol. Cawsom ein llestri te newydd o siopau ar y Stryd Fawr, darparodd Cassidy's y bwyd hyfryd a chafodd y standiau cacen tair haen eu creu yn lleol hefyd. Mae cynlluniau i wneud Parti Te'r Maer yn ddigwyddiad rheolaidd nifer o weithiau'r flwyddyn am fod cymaint o bobl yr hoffai Cyngor y Dref ddiolch iddynt ac rydym bob amser yn hapus i glywed gan drigolion am bobl sy'n haeddu diolch arbennig. Mae'r Cynghorydd Paul Johnson yn edrych ymlaen at y nesaf yn barod a bydd hwnnw'n digwydd ar 21 Tachwedd!

## Newyddion y Stryd Fawr

Newyddion da i'r stryd fawr pan glywsom o'r diwedd am benderfyniad Llywodraeth Cymru bod Treffynnon wedi derbyn yr arian i helpu gyda chyfraniad Cyngor Sir y Fflint a'r Cyngor Tref tuag at y gwaith. Y gobaith yw y bydd y cynllun wedi'i gwblhau tua diwedd mis Tachwedd.




## Gŵyl Well Inn 2019

Ar ddydd Sadwrn 7 Medi cafwyd Gŵyl Gerdd Well Inn a Diwrnod o Hwyl i'r Teulu hynod lwydiannus unwaith eto yng nghanol tref Treffynnon.

Meddai Cynghorydd Tref Treffynnon Edward Palmer "Mae'n debyg mai dyma un o'r gwyliau Well Inn gorau yr ydym wedi'i chyflwyno erioed. Roedd safon yr holl artistiaid a'r bandiau yn uchel iawn, ehangwyd ein llwyfannau o bedwar i chwech, a chredwn bod mwy o bobl wedi dod eleni. Mae'r ŵyl yn rhad ac am ddim ac rydym yn ei chynnal er budd ein cymunedau lleol ac ymwelwyr o bob man. Rydym yn ceisio cyflwyno, hyrwyddo a chefnogi cerddorion lleol yn eu hymdrechion i wneud eu marc yn y diwydiant cerddoriaeth. Diolch o galon iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr. Mae hwn yn un o'n prif ddigwyddiadau canol tref ac rydym ni yng Nghyngor Tref Treffynnon yn falch iawn o'i weld yn cael blwyddyn lwyddiannus arall. Bydd y Gweithgor Cerddoriaeth Canol Tref yn dechrau trefnu digwyddiad y flwyddyn nesaf cyn hir, ac edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r Arena Digwyddiadau newydd yn Tower Gardens yn 2020".

Ychwanegodd y Cynghorydd Joe Johnson "Mwynheais y diwrnod drwyddo draw a byddwn yn annog pobl leol i roi gwybod i bobl eraill am y digwyddiad rhagorol yma, o flwyddyn i flwyddyn. Gobeithio y bydd y cynlluniau ar gyfer gwella cysylltiadau trafnidiaeth o'r arfordir yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n dod fwyfwy oherwydd teimlwn y byddai hynny'n troi'r digwyddiad hwn yn atyniad mawr, a gyda'n tirnodau hanesyddol, gallai helpu i wneud Treffynnon yn dref ymweld o'r radd orau i dwristiaid".

Roedd canol y dref dan ei sang drwy'r prynhawn diolch i berfformiadau o bob genre gan fandiau ac artistiaid oedd yn canu caneuon gwreiddiol a chaneuon adnabyddus pobl eraill a chafwyd rhai perfformiadau trydanol. Daeth y deuawd New Kid i'r llwyfan gyda'u peiriannwr llwyfan ar yr harmonica a'r drymiwr o The Montagues ar y tamborîn, ac roedd y Boars Head yn bownsio. Bu Monarchy, band sy'n canu caneuon Queen, yn cyfareddu torf Tower Gardens hefyd a recordiwyd rhai o'r perfformiadau gwych yn fyw. Gallwch eu gweld ar dudalen Facebook yr ŵyl. Ychwanegwyd dau safle newydd i ddigwyddiad eleni, gyda Kassidy's Tea Rooms yn lle clud i wrando ar y perfformio a Chapel Bedyddwyr adnabyddus Bethel gyda'i holl gladin pren ar ei waliau mewnol y mae rhai yn ei ddisgrifio fel Albert Hall bychan.



Mae hon yn ddigwyddiad blynyddol ar Ddydd Sadwrn cyntaf mis Medi yng nghanol y dref rhwng 12pm a 6pm ac mae'n croesawu'r teulu cyfan gyda gweithgareddau i oedolion a phlant fel ei gilydd.

I gael rhagor o fanylion https://www.wellinn.co.uk

## HYSBYSIAD PWYSIG AM BASYS BWS (DROS 60 OED NEU I'R ANABL)

NEWIDIADAU I GARDIAU TEITHIO RHATACH

Bydd angen i chi newid eich hen gerdyn i'r math newydd rhwng Medi a 31 Rhagfyr 2019. I newid eich cerdyn, byddwch angen gwneud cais am Gerdyn Teithio Rhatach newydd.

Bydd eich pasys bws gwyrdd cyfredol yn dal i gael eu derbyn ac yn ddilys tan 31 Rhagfyr 2019.

Y cyngor yw na ddylai unrhyw un fynd i banics, ond dylech wneud cais am y cerdyn newydd mewn digon o amser cyn diwedd y flwyddyn i sicrhau eich bod yn gallu parhau i fwynhau manteision teithio rhatach. Ni fydd y darllenwyr electronig yn adnabod yr hen fath o gerdyn ar fysiau ar ôl 31 Rhagfyr 2019.

Mae'r cardiau newydd yn cynnig yr un hawliau a buddion teithio am ddim â'r cardiau cyfredol. Mae'r rhai newydd wedi eu llunio i allu gweithio yn rhan o rwydwaith teithio integredig yn y dyfodol.

https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Streetscene/Bus-pass-(over-60s-or-disabled).aspx